



Ffioedd gwneud cais a ffioedd gwrandawriad ar gyfer Anghydfodau yn y Tribiwnlys Priso Lesddaliadau a'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â'r tribiwnlys am fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon.

Codir ffioedd am rai ceisiadau, ond nid pob un ohonynt, ac mae'r ffioedd hyn yn amrywio yn dibynnu ar faint o arian y mae anghydfod yn ei gylch, neu sawl annedd sydd yn y cais. Hefyd, rhaid talu ffi gwrandawriad ar gyfer rhai mathau o geisiadau, os bydd gwrandawriad yn cael ei gynnal.

Weithiau, caiff cais ei drosglwyddo i'r Tribiwnlys o'r Llys Sirol. Bydd hyn yn digwydd fel arfer os bydd y Llys Sirol yn delio ag achos sy'n cynnwys materion y gall y Tribiwnlys ddelio â nhw a bod y barnwr yn penderfynu gwneud gorchymyn i drosglwyddo'r materion hynny i'r Tribiwnlys. Bydd yr hawlydd yn y Llys Sirol yn dod yn ymgeisydd i'r Tribiwnlys. Bydd unrhyw ffioedd i'w talu yn cael eu haddasu gan ystyried unrhyw ffioedd sydd wedi'u talu eisoes i'r Llys Sirol.

Mae'r tablau isod yn rhoi manylion am sut y caiff y ffioedd ar gyfer achosion y Tribiwnlys Priso Lesddaliadau eu cyfrifo.

Taliadau Gwasanaeth neu Weinyddol

Ffi i'w Thalau:

Ffi Gwneud Cais:

Os nad yw'r tâl y mae anghydfod amdano yn fwy na £500	£50
Os nad yw'r tâl y mae anghydfod amdano yn fwy na £1000	£70
Os nad yw'r tâl y mae anghydfod amdano yn fwy na £5000	£100
Os nad yw'r tâl y mae anghydfod amdano yn fwy na £15000	£200
Os nad yw'r tâl y mae anghydfod amdano yn fwy na £15000	£350
<u>Ffi Gwrandawriad</u>	£150

Esgusodeb rhag Gofynion Ymgynghori ar Dâl Gwasanaeth, Penodi Rheolwr, neu Amrywio Les Unigol

Ffi i'w Thalau:

Ffi Gwneud Cais:

5 annedd neu lai	£150
rhwng 6 a 10 annedd	£250
mwya na 10 annedd	£350
<u>Ffi Gwrandawriad</u>	£150

Hepgor Ffioedd

Os bydd Ymgeisydd/Ymgeiswyr neu bartner(iaid) unrhyw Ymgeisydd/Ymgeiswyr yn cael budd-daliadau penodol sy'n gysylltiedig ag incwm, gall y Ffi Gwneud Cais gael ei hepgor neu ei gostwng. Er mwyn hepgor y Ffi Gwneud Cais neu ei gostwng, rhaid i'r

Ymgeisydd/Ymgeiswyr sy'n cael y budd-dal hwn, neu y mae eu partner(iaid) yn cael y budd-dal hwn, gwblhau ffurflen cais am hepgoriad sydd ar gael gan y Tribiwnlys Priso Lesddaliadau. Ni fydd y partïon eraill yn cael copi o'r ffurflen hon.

Mae'r tablau isod yn rhoi manylion am sut y caiff y ffioedd ar gyfer achosion y Tribiwnlys Eiddo Preswyl eu cyfrifo.

Deddf Tai 1985

Ffi i'w Thalau:

Ffi Gwneud Cais:

Gorchymynion dymchwel - apelio yn erbyn gorchymynion dymchwel a.269(1)	£155
Safle heb fod yn ffit - cais i awdurdodi gwaith ar safle heb fod yn ffit neu wella safle o'r fath a.318(1)	£155

Deddf Tai 2004

Ffi i'w Thalau:

Ffi Gwneud Cais:

Gorchymyn gwahardd: gwrthod rhoi cymeradwyaeth i ddefnyddio safle sy'n destun gorchymynion gwahardd a.22(9)	£155
Trwyddedu tai amlfeddiannaeth (HMO): gwrthod rhoi hysbysiad esemptio dros dro a.62(7)	£155
Trwyddedu dewisol: gwrthod rhoi hysbysiad eithrio dros dro rhag gofyniad trwyddedu a.86(7)	£155
Gorchymynion rheoli: gweithredu gorchymynion rheoli - dodrefn a.126(4)	£155
Gorchymynion Rheoli Anheddau Gwag (EDMO): iawndal i'w dalu i drydydd partiön a.138	£155
Hysbysiad gwella: apelio yn erbyn Atodlen 1, para. 10	£155
Hysbysiad gwella: apelio yn erbyn penderfyniad Awdurdod Tai Lleol (LHA) i amrywio neu wrthod dirymu neu amrywio hysbysiad gwella Atodlen 1, para. 13	£155
Gorchymyn gwahardd: Atodlen 2, para. 7	£155
Gorchymyn gwahardd: penderfyniad LHA i amrywio neu wrthod amrywio neu ddirymu gorchymynion gwahardd Atodlen 2, para. 9	£155
Hysbysiad gwella: cais i adennill treuliau Atodlen 3, para. 11	£155
Rhoi neu wrthod trwydded: Atodlen 5, para. 31	£155
Trwyddedu HMO: penderfyniad i amrywio neu ddirymu, neu wrthod amrywio neu ddirymu trwydded Atodlen 5, para. 32	£155
Gorchymynion rheoli: penderfyniad LHA i amrywio neu ddirymu, neu wrthod amrywio neu ddirymu gorchymynion gwahardd Atodlen 6, para. 28	£155
Gorchymynion rheoli: iawndal trydydd parti Atodlen 6, para. 32	£155
EDMO: apêl derfynol yn erbyn penderfyniad LHA i wneud EDMO terfynol neu yn erbyn telerau EDMO terfynol Atodlen 7, para. 26(1)(a) a (b)	£155
EDMO: penderfyniad LHA i amrywio neu ddirymu, neu wrthod amrywio neu ddirymu EDMO dros dro neu derfynol Atodlen 7, para. 30	£155
EDMO: iawndal trydydd parti - peidio â thalu neu swm i'w dalu Atodlen 7, para. 34(2)	£155
Gorchymynion rheoli - apelio yn erbyn penderfyniad i wneud gorchymynion rheoli dros dro a therfynol Atodlen 6, para. 3 a rheoliad 49(2)	£155

Bydd maint y ffi gwneud cais yn dibynnu ar faint o leiniau neu Gartrefi Symudol y mae'r cais yn berthnasol iddynt

Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013

Ffi i'w Thalu

Ffi Gwneud Cais:

Os yw'r cais yn berthnasol i un llain neu Gartref Symudol	£155
Os yw'r cais yn berthnasol i ddwy lain neu ddau Gartref Symudol	£205
Os yw'r cais yn berthnasol i dair neu bedair llain neu dri neu bedwar Cartref Symudol:	£410
Os yw'r cais yn berthnasol i bump neu fwy o leiniau neu Gartrefi Symudol:	£515

Hepgor Ffioedd

Os bydd Ymgeisydd/Ymgeiswyr neu bartner(iaid) unrhyw Ymgeisydd/Ymgeiswyr yn cael budd-daliadau penodol sy'n gysylltiedig ag incwm, gall y Ffi Gwneud Cais gael ei hepgor neu ei gostwng.

Er mwyn hepgor y Ffi Gwneud Cais neu ei gostwng, rhaid i'r Ymgeisydd/Ymgeiswyr sy'n cael y budd-dal hwn, neu y mae eu partner(iaid) yn cael y budd-dal hwn, gwblhau ffurflen cais am hepgoriad sydd ar gael gan y Tribiwnlys Eiddo Preswyl.

Ni fydd y partiön eraill yn cael copi o'r ffurflen hon.

Dewis iaith

Mae'r tribiwnlys yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae'r tribiwnlys hefyd yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Gallwch chi gyflwyno ffurflenni, dogfennau a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r tribiwnlys yn Gymraeg neu'n Saesneg.